OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2003 No. 969

# Rheoliadau Cymorth Gwladol (Llety Preswyl) (Diystyru Adnoddau) (Cymru) 2003

**Diystyru adnoddau**

**2.**—(1) Wrth benderfynu at ddibenion paragraff (a) neu (aa) yn is-adran(1) o adran 21 o'r Ddeddf pa un a yw gofal a sylw ar gael fel arall i berson, rhaid i awdurdod lleol ddiystyru y rhan honno o gyfalaf person nad yw'n fwy na'r terfyn cyfalaf.

(2) At ddibenion paragraff (1) o'r rheoliad hwn, yn ddarostyngedig i baragraff (3)—

(a) Cyfrifir cyfalaf person yn unol â'r Rheoliadau Asesu yn yr un modd â phe bai ef neu hi yn berson y cynigir darparu llety ar ei gyfer neu ar ei chyfer fel y crybwyllir yn is-adran (3) o adran 22 o'r Ddeddf, ac yn berson y mae ei allu neu ei gallu i dalu yn gymwys i'w asesu at ddibenion yr is-adran honno; a

(b) ystyr "y terfyn cyfalaf" yw'r swm ar hyn o bryd a ragnodwyd mewn perthynas â Chymru yn y Rheoliadau Asesu fel y swm na ddylai cyfalaf preswylydd (a gyfrifir yn unol â'r Rheoliadau hynny) fod yn fwy nag ef os yw ef neu hi yn berson i'w asesu fel rhywun nad yw'n gallu talu am ei lety neu ei llety ar y gyfradd safonol(**1**).

(3) Mewn achos lle y mae awdurdod lleol wedi llunio cytundeb neu wedi cytuno i lunio cytundeb taliad gohiriedig (fel y darperir ar ei gyfer yn adran 55 o Ddeddf 2001), rhaid i'r awdurdod lleol pan yw'n gwneud y cyfrif a bennir ym mharagraff (2)(a) yn y rheoliad hwn,] roi effaith i baragraff 1A yn Atodlen 4 i'r Rheoliadau Asesu, fel pe bai'r paragraff hwnnw'n darllen fel a ganlyn—

> "**1A.** In the case of a resident who becomes a permanent resident on or after 7th April 2003 the value of any dwelling which he or she would otherwise normally occupy as his or her only or main residence.".

(**1**) I weld ystyr "cyfradd safonol" *gweler* adran 22(2) o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948 p.29. Ystyr cyfradd safonol yw cyfradd sy'n cynrychioli'r gost lawn i'r awdurdod o ddarparu'r llety.